# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ**

**Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 18 Medi 2018

Amser: 08.30 - 08.47

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AC (Cadeirydd)<br>Julie James AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Gareth Bennett AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AC, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Cafwyd ymddiheuriadau gan Paul Davies. Roedd Darren Millar yn bresennol yn ei le.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod ar gyfer eu cyhoeddi.

# 3 Trefn busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio fel yr eitem olaf o fusnes.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

## 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 26 Medi 2018 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Wrth eich gwaith: rhianta a chyflogaeth yng Nghymru (60 munud)
- Dadl ar Ddeiseb P-05-826 – Mae Sir Benfro yn dweud NA!! i gau adran damweiniau ac achosion brys Llwynhelyg! (60 munud)
- ~~Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)~~ – *gohiriwyd*
- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)~~ – *gohiriwyd*

Dydd Mercher 10 Hydref 2018 –

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Cyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau Addysgol (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Meithrin Cydnerthedd: Ymchwiliad i gyllid heblaw cyllid cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau (60 munud)

### 3.4 Cais am ddadl ar Ddeiseb

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i'r cais.

## 4 Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20

### 4.1 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch amserlen y Gyllideb

*Amserlen Cyllideb Llywodraeth Cymru 2018-19*

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid, cytunodd Rheolwyr Busnes i gadarnhau'r amserlen fel y'i cynigiwyd gan Arweinydd y Tŷ. Fodd bynnag, os cyhoeddir gwybodaeth newydd ynghylch yr amserlen ar gyfer Cyllideb y DU, bydd y Rheolwyr Busnes yn adolygu'r amserlen ar yr adeg honno.

Cytunodd Rheolwyr Busnes ar yr amserlen a ganlyn ar gyfer trafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru:

| | **Dyddiad** |
|---|---|
| **Gosod cynigion amlinellol ar gyfer cyllideb y Llywodraeth** | 2 Hydref 2018 |
| **Gosod cynigion manwl ar gyfer cyllideb y Llywodraeth** | 23 Hydref 2018 |

| | |
|---|---|
| Y dyddiad cau i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar gynigion amlinellol cyllideb y Llywodraeth | 27 Tachwedd 2018 |
| Y dyddiad cau i'r pwyllgorau eraill gwblhau eu hystyriaeth o'r cynigion manwl ar gyfer y gyllideb | 27 Tachwedd 2018 |
| Cyflwyno cynnig y gyllideb flynyddol | 18 Rhagfyr 2018 |

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn gofyn am gyfarfod y tu allan i'r slot arferol

Cytunodd Rheolwyr Busnes i gais gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol bod y pwyllgor yn cynnal cyfarfod y tu allan i'w slot arferol fore Llun 15 Hydref 2018 i glywed tystiolaeth gan y Gweinidog Gwladol dros bolisi masnach ar oblygiadau polisi masnach i Gymru.

### 5.2 Llythyr gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn gofyn am gyfarfod y tu allan i'r slot arferol

Cytunodd Rheolwyr Busnes i gais gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg bod y pwyllgor yn cynnal cyfarfod y tu allan i'w slot arferol brynhawn dydd Mawrth 15 Tachwedd i gynnal cyfarfod cydamserol â'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

### 5.3 Effaith Aelod yn ymddiswyddo ac yn gadael grŵp gwleidyddol

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod yr opsiynau â'u grwpiau a dychwelyd at y mater wythnos nesaf.

## Unrhyw fater arall

**Newid aelodaeth pwyllgorau**

Nododd Rheolwyr Busnes y byddai'r newidiadau i aelodaeth Ceidwadwyr Cymru a UKIP o'r pwyllgorau perthnasol yn cael eu hychwanegu at agenda'r Cyfarfod Llawn heddiw.

**Helen Mary Jones**

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y byddai'n croesawu'r Aelod Cynulliad newydd dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru ar ddechrau'r Cyfarfod Llawn heddiw.